

Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei datblygu oherwydd ein bod am wella'r ffordd rydym yn rheoli ein hymagwedd tuag at gynaliadwyedd, er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy; ac i allu dangos yr effaith wirioneddol rydym yn ei gael ar ein tenantiaid, ein cymunedau a'r byd ehangach.

Ymagwedd tuag at Gynaliadwyedd yn TGC

Ein gweledigaeth ar gyfer 2050 yw:

... y byddwn yn darparu cartrefi o safon uchel sy'n effeithlon o ran adnoddau mewn cymunedau sy'n gwerthfawrogi eu hamgylchedd lleol ac sy'n cymryd rhan weithredol wrth ddiogelu a gwella lles hirdymor eu hardal. Byddwn yn rhoi gwerth uchel ar amgylcheddau ecolegol iach lle mae arweinyddiaeth gymunedol yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol a'r gymuned ehangach. Trwy weithio gyda'n gilydd byddwn yn parhau i ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Tai Gogledd Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn darparu'r cam cyntaf ar y llwybr i gyflawni gweledigaeth

2050. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau datblygiad cynaliadwy TGC, monitro cynnydd a sicrhau bod yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy* yn rhan annatod o waith y sefydliad.

Mae ein Cynllun Busnes "Cartrefi ar gyfer Gogledd Cymru 2016 - 2021" yn nodi ein blaenoriaethau strategol a cheir cyfeiriadau at gynaliadwyedd drwyddo.

Trwy'r broses Hunan Werthuso mae'n rhaid i bob gwasanaeth brofi ei fod yn cyflawni mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ein gweledigaeth 2050.

Ein blaenoriaethau Cynaliadwyedd

- a. Integreiddio gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd fel rhan o ddiwylliant y sefydliad
- b. Rheoli ein hasedau i optimeiddio ein nodau cynaliadwyedd



- c. Cael y gwerth gorau posibl allan o gaffael yn unol ag Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy
- d. Deall a gallu adrodd ar effeithiau amgylcheddol
- e. Yn deall yn llawn ein heffaith amgylcheddol ar draws y sefydliad a sut yr ydym yn cymharu ag eraill
- f. Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth - deall anghenion ein tenantiaid (perfformiad a gwella parhaus)
- g. Cynnwys ein staff a'n tenantiaid yn llawn yn y camau gweithredu ar gyfer datblygiad cynaliadwy
- h. Bod yn dryloyw, yn atebol a chael cyfathrebu hygrych

MAE CYNLLUN CYFLAWNI'R STRATEGAETH CYNALIADWYEDD WEDI CAEL EI DDATBLYGU I SICRHAU EIN BOD YN CYFLAWNI'R BLAENORIAETHAU.

Pwy sy'n ymwneud â hyn?

Mae angen ymgorffori meddwl a gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd ar draws y sefydliad ac mae'n ymwneud â'n holl strwythurau llywodraethu, cwsmeriaid, staff a chontractwyr.

- **Bwrdd Grŵp** - atebolrwydd cyffredinol am gyfeiriad strategol a datblygiad cynaliadwy y grŵp
- **Pwyllgor Gwasanaethau Landlord** - Sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o ddiwylliant TGC a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud
- **Panel Ymgynghorol Preswylwyr** - Darparu her addas o safbwynt tenantiaid ar gynaliadwyedd
- **Tîm Gweithredol** - Sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni a nodi meysydd newydd sydd angen llunio datblygiad y strategaeth yn y dyfodol
- **Yr Holl Staff** - Mae gan bob aelod o staff Tai Gogledd Cymru gyfrifoldeb i weithio mewn modd sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy'r sefydliad.

Mesur a monitro pa mor dda rydym yn gwneud

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu a ydym yn cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau cynaliadwyedd:

- Bydd mesurau perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu bob chwarter
- Byddwn yn cymharu ein perfformiad gyda'n cymheiriaid trwy asesiad SHIFT ddwywaith y flwyddyn neu achrediad allanol amgen tebyg

- Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Cynaliadwyedd blynyddol

Adolygiad

Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn 2019.

Dogfennau perthnasol

- Cynllun Busnes 2016-2021
- Cynllun Cyflawni'r Cynllun Busnes
- Cynllun Busnes Tai â Chymorth 2015-2019
- Adroddiad Blynyddol
- Hunan-werthusiad
- Ymagwedd TGC tuag at hunanwerthuso
- SHIFT 2014
- Polisi Amgylcheddol 2016
- SHIFT 2016
- Polisi effeithlonrwydd adnoddau, cynaliadwyedd a chynhesrwydd fforddiadwy
- Fframwaith Perfformiad a Gwella
- Strategaeth Datblygu



*Mae'r Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu ar gyfer eu hanghenion eu hunain